

# SL(5)150 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

## Cefndir a diben

---

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf a'r telerau a'r amodau cyflogaeth eraill i weithwyr amaethyddol. Mae'n dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016 gyda rhai newidiadau sy'n cynnwys cynnydd yn lefelau cyflog 2016 ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

Gwnaed y Gorchymyn ar 2 Tachwedd 2017 a daeth i rym ar 3 Tachwedd 2017. Mewn llythyr dyddiedig 2 Tachwedd 2017, eglurodd Jane Hutt, Arweinydd y Tŷ a Phrif Chwip bryd hynny, i'r Llywydd ei bod yn angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn sicrhau nad oes oedi pellach o ran dod â'r cynnydd yn y cyfraddau cyflog amaethyddol i rym.

## Y weithdrefn

---

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

---

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Mae'r diffiniad o 'absenoldeb salwch' yn erthygl 2 yn cynnwys y geiriad "salwch neu analluedd a achosir am fod y gweithiwr amaethyddol yn feichiog neu'n fam". Mae'r diffiniad cyfatebol o 'sickness absence' yn y testun Saesneg yn cyfeirio at "illness or incapacity caused by the agricultural worker's pregnancy or maternity". Mae'r gair Saesneg 'maternity' yn awgrymu bod yn fam i blentyn ifanc, ond mae 'bod yn fam' yn gymwys am weddill oes y fam. Yn yr un erthygl, yn y diffiniad o 'diwrnodau cymwys' ('qualifying days'), defnyddir y gair 'mamolaeth' ar gyfer 'maternity'. **[Rheol Sefydlog 21.2(vii) - anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg]**
2. Yn erthygl 31(4), mae'r testun Saesneg yn cynnwys y geiriad 'the employer is entitled to deduct'. Yn y Gymraeg, mae'r testun cyfatebol yn nodi 'mae gan y gweithiwr hawl i ddedynnu'. Mae'n amlwg o'r cyd-destun mai'r testun Saesneg sy'n gywir. **[Rheol Sefydlog 21.2(vii) – anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg ac ystyr testun Saesneg.]**
3. Y dyddiad ar gyfer dod â'r Gorchymyn i rym yw 3 Tachwedd 2017. Fodd bynnag, mae Erthygl 1(2) o'r Gorchymyn yn darparu bod y Gorchymyn yn gymwys fel pe buasai wedi dod i rym ar 1 Ebrill 2017. Nid oes pŵer yn y ddeddfwriaeth alluogi (Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014) i orchmynion gael effaith ôl-weithredol.

Mae paragraff 10 o'r Memorandwm Esboniadol yn egluro i'r panel gynnal ymgynghoriad penodol ar y cyfraddau arfaethedig newydd yn ystod hydref 2016.



Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

*"The intention of the panel was to have the new Order in force on 1 April [2017], the same date the National Living Wage and National Minimum Wage increases took effect.....However, the 1 April coming into force date was not achieved."*

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn darparu unrhyw wybodaeth bellach ynghylch y rheswm dros yr oedi, ond yn y llythyr dyddiedig 2 Tachwedd 2017 i gyd-fynd â'r Gorchymyn, mae Jane Hutt, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip bryd hynny, yn nodi:

*"Dyma oedd y tro cyntaf i'r Panel baratoi gorchymyn cyflogau drafft ers ei sefydlu ar 1 Ebrill 2016 a chafwyd rhai anawsterau wrth sefydlu proses effeithiol ar gyfer gwneud gorchymynion cyflogau newydd yn unol â gweithdrefnau statudol Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 a Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016."*

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 2 Tachwedd 2017, roedd cyflogau gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r cyfraddau a bennwyd yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016, ac eithrio cyfraddau isaf yn y Gorchymyn a oedd yn is nag Isafswm Cyflog Cenedlaethol a Chyflog Byw Cenedlaethol y DU.

Mewn **datganiad** dyddiedig 5 Ebrill 2017, dywedodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd:

*"Yr wyf yn ddiolchgar fod y Panel wedi paratoi gorchymyn cyflogau newydd mewn drafft a wedi ei gyflwyno i mi ei gymeradwyo. Yr wyf wedi cyfeirio'r gorchymyn yn ôl i'r panel i ystyried, cyn ei ailgyflwyno i mi. Hyd nes y daw unrhyw orchymyn cyflogau newydd i rym, bydd gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn parhau i fod yn ddarostyngedig i delerau ac amodau Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016."*

Mae'r cynnydd yn y cyfraddau Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn y DU ar 1 Ebrill yn effeithio ar gyflogau rhai gweithwyr fferm yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau mewn perthynas â gweithwyr amaethyddol a gyflogir yng ngraddau 1 a 2.

<b>Gradd</b>	<b>Isafswm cyfradd fesul awr o 1 Ebrill 2017</b>
Gradd 1: 25 a throsodd:	£7.50
Gradd 1: 21-24:	£7.05
Gradd 1: 16-20:	£6.72
Gradd 2 (25 oed a throsodd):	£7.50



*Bydd yr holl gategorïau a graddau eraill o weithwyr yn amodol ar y cyfraddau a bennir yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016. Bydd y cyfraddau ar gyfer prentisiaid hefyd yn aros yn ddigyfnewid."*

Mae'r cynnydd mwyaf mewn cyfraddau tâl yn ymwneud â gweithwyr Gradd 1 rhwng 16 ac 20 oed. Mae gyfradd isaf fesul awr ar gyfer y gweithwyr hynny wedi cynyddu o £6.72 i £7.06, sef cynnydd o 5.05 y cant.

Mae i'r Gorchymyn effaith ôl-weithredol ac, oherwydd hynny, caiff y cynnydd hwn a phob un arall ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2017. Mae hyn yn golygu y bydd cyflogwyr gweithwyr amaethyddol sy'n talu llai na'r cyfraddau yng Ngorchymyn 2017 yn gyfrifol am dalu ôl-ddyledion.

Ystyrir y gall deddfwriaeth ôl-weithredol fod yn briodol ac yn ddymunol mewn rhai amgylchiadau, ond nis anogir yn gyffredinol. Nid yw'n ddigon clir yn y Memorandwm Esboniadol pam y bu oedi o dros 7 mis wrth osod y Gorchymyn hwn.

Barn cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor yw bod yr offeryn hwn yn cymhwyso Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1") sy'n darparu fel a ganlyn:

- (1) Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law and by the general principles of international law.*
- (2) The preceding provisions shall not, however, in any way impair the right of a state to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties.*

Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes sôn yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch a fu cyfathrebu pellach â chyflogwyr gweithwyr amaethyddol yn dilyn datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 5 Ebrill 2017 er mwyn eu hysbysu y byddai unrhyw gynnydd yn y cyfraddau cyflog yn cael ei ôl-ddyddio.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, ni all y Pwyllgor lunio barn ynghylch a yw'r Gorchymyn yn gyson ag A1P1.

Mae Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu nad oes gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud unrhyw is-ddeddfwriaeth i'r graddau nad yw'n gyson ag unrhyw un o hawliau'r Confensiwn.

**[Rheol Sefydlog 21.2(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires; Rheol Sefydlog 21.2(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn].**



## Craffu ar y rhinweddau

---

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y Goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

---

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

---

Mae angen ymateb gan y llywodraeth.

## Ystyriaeth y Pwyllgor

---

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn hwn yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau craffu technegol a nodir. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried ymateb y llywodraeth pan fydd ar gael.

